

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn gwneud diwygiadau amrywiol i is-ddeddfwriaeth ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(1), ac ym mhennawd yr Atodlen iddynt, yn lle “deddfwriaeth yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “deddfwriaeth yr UE a ddargedwir”.

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014

3.—(1) Mae Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o “gweithrediad a gymeradwywyd” (“*approved operation*”), ar y diwedd, mewnosoder “(gweler paragraff (3))”;

(ii) yn y diffiniad o “person awdurdodedig” (“*authorised person*”), hepgorer y geiriau o “, ac mae’n cynnwys” hyd at “person awdurdodedig hwnnw”;

(iii) hepgorer y diffiniad o “y Comisiwn” (“*the Commission*”);

(iv) hepgorer y diffiniad o “cymorth yr UE” (“*EU assistance*”);

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae “gweithrediad a gymeradwywyd” yn cynnwys gweithrediad a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru i gael cymorth ariannol o dan reoliad 4 cyn y diwrnod ymadael.”

(3) Yn rheoliad 4(2), yn lle “yr UE” rhodder “ariannol”.

(4) Yn rheoliad 7(2)(d), yn lle “yr UE” rhodder “ariannol”.

(5) Yn rheoliad 10—

(a) hepgorer paragraff (1)(j)(i);

(b) hepgorer paragraff (3).

(1) O.S. 2006/3342 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1807 (Cy. 175); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2014/3222 (Cy. 327).

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
(System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi
a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

4.—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5—

- (a) ym mharagraff (2)(b), hepgorer “neu'r corff cydgyssylltu”;
- (b) hepgorer paragraff (3).

(3) Yn lle rheoliad 7(7) rhodder—

“(7) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i mewn ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd â pha bynnag bersonau eraill gydag ef a ystyrir gan y person awdurdodedig yn angenrheidiol at unrhyw ddiben a grybwyllir ym mharagraff (1).”

(4) Yn lle rheoliad 8(3) rhodder—

“(3) Mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson y cyfeirir ato yn rheoliad 7(7) pan fo'r person hwnnw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd person awdurdodedig, fel pe bai'r person hwnnw yn berson awdurdodedig.”

**Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a
Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Cymru) 2015**

5.—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

- (a) hepgorer “a (2)”;
- (b) yn lle “Erthygl 10(1)(b)” rhodder “Erthygl 10(1)”.

(3) Yn rheoliad 11(1) a (2), ar ôl “Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig” mewnosoder “fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael”.

(4) Yn rheoliad 18(1), ar ôl “Rheoliad Taliadau Uniongyrchol” mewnosoder “fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael”.

Lesley Griffiths

(1) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(2) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86).

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad